

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION  
NOTICE

Dyddiad/Date 20140520

PWNC / SUBJECT

Eitem 6 – Fframwaith i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth

*Item 6 – Framework for providing integrated health and social care for older people who have complex needs*

---

PENDERFYNIAD / DECISION

- Cadarnhau'r cytundeb i weithio'n rhanbarthol gyda chwe awdurdod lleol y gogledd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyflawni'r fframwaith.
- Cytuno bod cynnwys y ddogfen yn sail am drafodaethau pellach er mwyn datblygu trefniadau integredig gan hefyd ofyn i'r trefniadau yma gael eu sefydlu drwy ddechrau gydag ystyriaeth o wir anghenion pobl Gwynedd.
- *To confirm the agreement to work regionally with the six local authorities of north Wales and the Betsi Cadwaladr University Health Board to achieve on the framework.*
- *To agree that the content of the documents forms a basis for further discussions in order to develop integrated arrangements and also to ask for these arrangements to be established by starting with a consideration of the real needs of the people of Gwynedd.*

---

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Ym mis Gorffennaf 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r ddogfen ymgynghori "Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig". Roedd disgwyliad i bartneriaid lleol gytuno a chyhoeddi Datganiad o Fwriad o ran Gofal Integredig erbyn mis Ionawr 2014.

Cyflwynwyd fersiwn derfynol o'r datganiad o fwriad rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a chwe Awdurdod Lleol y gogledd, dyddiedig Mawrth 2014, i sylw'r Cabinet.

I gyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu'r Datganiad o Fwriad, datblygwyd cynllun gwaith er mwyn cyfleu bwriad y bartneriaeth ar lefel uwch ac ar lefel strategol ar gyfer 2014/15 a gosod y cyfeiriad y dylai'r rhanbarth ei ddilyn wrth ei

---

---

weithredu. Mae'r cynllun yn rhoi amlinelliad o'r gweithrediad a ddisgwylir ar lefel rhanbarthol ac ar lefel sirol, tra'n cydnabod y bydd blaenoriaethau'n amrywio yn amodol ar gynllunio gwasanaeth cyfredol a bwriad gwleidyddol yr ardal ddaearyddol.

Mae trafodaethau wedi'u cynnal ers tro ynghylch yr angen i sicrhau gwell cydweithio rhwng gofal ac iechyd, yn enwedig o ran mynd i'r afael ag anghenion pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth. Yn ogystal, derbynnir bod angen ymateb i angen lleol a datblygiadau gwasanaeth hanesyddol mewn ardaloedd. Mae hyn yn arwain at yr angen am gynllunio gwasanaeth ar lefelau rhanbarthol, isranbarthol a sirol.

Mae newidiadau demograffig yn golygu bod galw cynyddol am wasanaethau i bobl hŷn. Yn ogystal, mae cyfyngiadau ariannol y blynyddoedd diweddar a'r rhagolygon anodd sydd o'n blaenau yn sicrhau bod yn rhaid cydweithio er mwyn gwneud y mwyaf o werth asedau ar gyfer pobl Gwynedd.

Drwy drefniadau'r Fforwm Sirol a'r Timoedd Ardal, bydd y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r trydydd sector yn cydweithio ac yn ceisio sicrhau y datblygir gwasanaethau integredig yn effeithiol yma yng Ngwynedd a sicrhau bod pobl hŷn yn cael y gofal gorau bosib, waeth beth fo'u hanghenion, a hynny o fewn strwythur sy'n syml ac yn ddealladwy iddynt hwy a'u teuluoedd.

*In July 2013, the Welsh Government published the consultation document, "A Framework for Providing Integrated Health and Social Care". The expectation was for local partners to agree and publish a Statement of Intent with regard to Integrated Care by January 2014. The final version of the Statement of Intent between Betsi Cadwaladr University Health Board (BCUHB) and the six Local Authorities in north Wales, dated March 2014, was submitted to the Cabinet's attention.*

*To correspond with the work of developing a Statement of Intent, a work plan was developed in order to convey the partnership's intentions on a senior and strategic level for 2014/14 and to set out the direction that the region should follow for implementation. The plan outlines the implementation expected on both a regional and county level, whilst acknowledging that priorities will vary subject to current service planning and political intent of the geographical area.*

There have been discussions for a while regarding the need to ensure improved collaboration between care and health, especially in terms of addressing the needs of older people with complex needs. Additionally, it is accepted that there is a need to respond to local need and historical service developments within areas. *This results in the need for service planning on a regional, sub-regional and county level.*

*Demographic changes mean that there is an increasing demand for services for older people. Also, the financial restrictions of recent years and difficult projections ahead ensure that we must collaborate in order to maximise the value of our assets for the people of Gwynedd.*

---

*Through the arrangements of the County Forum and the Locality Teams, the*

---

*Council, BCUHB and the third sector will work together to try and ensure that integrated services are developed effectively here in Gwynedd and to ensure that older people receive the best possible care whatever their needs and within a structure that is simple and understandable to them and their families.*

---

Sylwadau neu bwyntiau croes / *Observations or opposing views:-*

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gofal, roedd yna deimlad cyffredinol ymhlith yr Aelodau Cabinet fod hwn yn ddatblygiad i'w groesawu. Eglurwyd bod y cynllun gwaith yn fan cychwyn er mwyn adnabod y ffordd ymlaen yn y tymor hir. Nodwyd fod angen i drafodaethau o'r math hyn gychwyn gyda dinasyddion ac mai'r ffordd orau o sicrhau bod gwasanaethau yn gwella yw trwy weithredu gyda phobl Gwynedd o'r dechrau.

*Following the submission of the report by the Cabinet Member for Customer Care, there was a general feeling amongst Cabinet Members that this development was to be welcomed. It was explained that the work plan was a starting point to identify the way forward in the long term. It was noted that there was a need for such discussions to begin with the citizens and that the best way of ensuring that services were improved was by involving the people of Gwynedd from the outset.*

---

Barn y Swyddogion Statudol / *The views of the Statutory Officers:-*

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive:-*

Mae'n amlwg bod gwell cydweithio rhwng y Gwasanaethau Gofal a'r Gwasanaeth Iechyd yn allweddol ac mae'r Datganiad o Fwriad hwn a'r Cynllun Gweithredu sydd ynghlwm ynddo yn gosod fframwaith ar gyfer hyn ar lefel rhanbarthol. Y cwestiwn mwy pwysig yw a ydym yn symud i drefniadau mwy lleol ar gyfer gwireddu cydweithio ar lawr gwlad.

Rwy'n gwybod bod hyn wedi bod yn fater o bryder i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wrth iddo graffu'r mater yn ei gyfarfod ym mis Chwefror. Yn ogystal, mae gwaith y Fforwm Sirol y mae cyfeirio ato yn yr adroddiad ac yn wir, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, yn allweddol i sicrhau bod y son am gydweithio ar lefel uwch yn cael ei gyfieithu yn gamau ymarferol ar lawr gwlad fydd yn gwella canlyniadau i drigolion wrth i wasanaethau integreiddio'n well.

*It is clear that greater collaboration between the Care Services and Health Service is key and the attached Statement of Intent and Action Plan set the framework for this at a regional level. The more important question is whether we are moving to more local arrangements for collaboration in the field.*

*I know this has been a matter of concern to the Services Scrutiny Committee at its meeting in February. In addition, the work of the County Forum referred to in the report and the Local Services Board is key to ensuring that the talk of cooperation at*

---

---

*a higher level will be translated into practical actions on the ground which will improve outcomes for residents as services are better integrated*

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Mae'r amcan o wella profiadau'r defnyddwyr trwy integreiddio gwasanaethau gofal ar draws sectorau ac ar draws y rhanbarth yn un i'w groesawu'n fawr. Wrth fynd ati i gynllunio'r cydweithio yma bydd raid cofio nad yw'r sefydliadau eu hunain yn cyfuno ac nad oes corff ar wahân gyda'i drefniadau llywodraethu ei hun yn cael ei ffurfio. Mae'r dyletswyddau statudol yn aros gyda'r cyrff presennol ac mae angen bod yn wylidwrus nad yw'r trefniadau yn cymylu atebolrwydd y cyrff rheini. Mae yna nifer o ystyriaethau cyfreithiol (megis diogelu data, trefniadau caffael ayb) sydd angen sylw ar hyd y daith os yw'r integreiddio am gyflawni ei nod.

*The objective of improving user experience through the integration of care services across sectors and across the region is to be greatly welcomed. In planning this collaboration it needs to be borne in mind that there is no merger between the organisations themselves nor is it a separate body with its own governance arrangements established. The statutory responsibilities remain with the current organisations and care needs to be taken that the arrangements do not cloud the accountability of those bodies. A number of legal considerations (such as data protection, procurement arrangements, etc.) need to be taken into account along the way if the integration is to achieve its purpose.*

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Rwy'n dehongli mai'r bwriad yw cytuno ar fframwaith, sy'n debycach i strategaeth na chontract, er mwyn symud ar y cyd gyda'r Bwrdd lechyd tuag at fodel integredig rhanbarthol.

Deallaf nad yw'r papur gerbron am ymrwymo'r Cyngor i unrhyw wariant penodol ychwanegol, ond gall arwain at ffordd wahanol o weithio gyda chostau is neu uwch yn y tymor canol.

Mae grant "Cronfa Gofal Canolraddol" o £2m ar gael i'w wario eleni gan Gyngor Gwynedd a'r Bwrdd lechyd yn yr un maes â'r fframwaith yma.

*I interpret that the intention is to agree on a framework, which is more similar to a strategy than a contract, to move in conjunction with the Health Board towards an integrated regional model.*

*I understand that the paper does not commit the Council to any specific additional spending, but it could lead to a different way of working with lower or higher costs in the medium term.*

*The "Intermediate Care Fund" grant of £2m is available to be spent this year by Gwynedd Council and the Health Board in the same area as this framework.*

---

Barn yr Aelod Lleol / Views of the Local Member

Dim yn berthnasol

---

---

*Not relevant.*

---

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION  
NOTICE

Dyddiad/Date 20140520

PWNC / SUBJECT

Eitem 7  
*Item 7*

---

PENDERFYNIAD / DECISION

Cau allan y Wasg a'r Cyhoedd

*Exclusion of Press and Public*

---

---

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Cynigiodd Cadeirydd y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinir ym mharagraffau 14, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r paragraff yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol a busnes y cwmni a bod yr wybodaeth honno yn fasnachol sensitif yn yr ystyr y byddai ei datgelu yn niweidio gallu'r cwmni i gystadlu ac i ddenu nawdd. Oherwydd hyn mae'r budd cyhoeddus o blaid cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

*The Chairman proposed that the press and public be excluded from the meeting during the discussion on the following item due to the likely disclosure of exempt information as defined in paragraph 14, Section 4, Schedule 12A of the Local Government Act 1972.*

*The paragraph is relevant as the report contains information relating to the financial and business matters of the company, is commercially sensitive and if disclosed, could affect the company's ability to be competitive and to attract finance. Consequently, the public interest in keeping the information confidential outweighs the public interest in disclosing the information.*

---

Sylwadau neu bwyntiau croes / Observations or opposing views:-

---

---

Barn y Swyddogion Statudol / The views of the Statutory Officers:-

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-
2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-
3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

---

Barn yr Aelod Lleol / Views of the Local Member

Dim yn berthnasol  
*Not relevant.*

---

\* Eitem Eithriedig \* \*Excluded Item\*

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION  
NOTICE

Dyddiad/Date 20140520

PWNC / SUBJECT

Eitem 8  
Pwll Nofio Harlech

*Item 8  
Harlech Swimming Pool*

---

PENDERFYNIAD / DECISION

- Cefnogi Cwmni Harlech and Ardudwy Leisure Ltd gyda menter Pwll Nofio Harlech drwy ddarparu cefnogaeth ariannol iddynt.
  - Cefnogi'r Fenter yn unol â'u cais ond yn amodol ar adolygiadau rheolaidd.
  - Bydd cyfraniad blwyddyn 2 a 3 yn ddibynnol ar y cynnydd yn erbyn y rhagolygon ariannol a'r cynllun busnes a chanlyniad yr adolygiadau rheolaidd.
  - Defnyddio arian sydd eisoes wedi cronni trwy gyflawni arbedion uwch-reolaethol yn gynnar er mwyn ariannu'r cefnogaeth ariannol un-tro yma i'r fenter.
  - *To support Harlech and Ardudwy Leisure Ltd with the Harlech Swimming Pool enterprise by providing financial assistance to them.*
  - *To support the Enterprise in accordance with their application but subject to regular reviews.*
  - *The contribution in years 2 and 3 will be dependent on progress against the financial projections and the business plan and the results of the regular reviews.*
  - *To use the money that has already been accrued through the advance realisation of senior management savings to fund this one-off financial support for the enterprise.*
- 
-



---

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Yn dilyn Astudiaeth Opsiynau, a Chynllun Busnes. penderfynodd Bwrdd Cyngor Gwynedd, ar y 14eg o Orffennaf 2009, i gymeradwyo trosglwyddiad Pwll Nofio Harlech i Ymddiriedolaeth Nofio Harlech. Yn ategol i hynny cymeradwyodd y Bwrdd i wneud gwaith brys i atgyweirio peipiau a system ffiltro dŵr y pwll nofio ar gyfer hwyluso'r trosglwyddiad; ynghyd â chymeradwyo cefnogaeth ariannol i'r Ymddiriedolaeth hyd at Ebrill 2011.

Ers Rhagfyr 2010, pan drosglwyddwyd y pwll, mae'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i ddenu buddsoddiad cyfalaf i'r fenter ar gyfer gwaith uwchraddio ac ehangu'r cyfleusterau yn y pwll (caffi, wal ddringo, ystafell gyfarfod). Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi denu adnoddau Refeniw gan y Loteri Fawr i gyfrannu tuag at gostau rhedeg y fenter yn ystod y cyfnod 2010-2014.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystod y 4 blynedd ddiwethaf wedi wynebu heriau nas y'i rhagwelwyd wrth asesu hyfywdra'r trosglwyddiad. Mae'r prif heriau wedi bod fel a ganlyn:-

- Materion Llywodraethu
- Materion Staffio
- Materion Ynni
- Materion Defnydd

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus ym mis Ionawr 2014 gyda'r nod o sicrhau mwy o gefnogaeth i'r fenter wrth iddi symud ymlaen. Llwyddwyd i ddenu aelodau newydd i'r pwyllgor a chyfarwyddwyr newydd i'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi sicrhau cefnogaeth cwmni Empower ar gyfer y 6 mis nesaf i fynd i'r afael a materion llywodraethu a staffio'r fenter.

Yn ategol mae'r Ymddiriedolaeth ers Ionawr 2014 wedi ail-edrych ar eu cynllun busnes a'u rhagolygon ariannol. Yn sgil y gwaith yma ymddengys fod yr Ymddiriedolaeth yn wynebu cyfnod ansicr iawn ar y funud, ac yn wynebu sefyllfa o orfod cau y pwll oni bai y daw cefnogaeth ariannol ychwanegol.

Mae'r Cwmni yn gofyn i'r Cyngor ystyried rhoi cefnogaeth ariannol fel a ganlyn i'r fenter i gwrdd â diffyg yn eu llif ariannol:-

£60,000 yn 2014-15  
£45,000 yn 2015-16  
£30,000 yn 2016-17

Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r fenter, yr argymhelliad oedd defnyddio arian sydd eisoes wedi cronni trwy gyflawni arbedion uwch-reolaethol yn gynnar er mwyn diwallu'r angen un-tro yma.

Mae Cyngor Gwynedd a nifer o bartneriaid yn cynnwys Llywodraeth Cymru a'r Loteri wedi buddsoddi yn y fenter dros y 5 mlynedd diwethaf ac nid oedd

---

---

aelodau'r Cabinet am weld y buddsoddiad yn mynd yn ofer.

Er gwaethaf ymdrechion gwirfoddolwyr a chyfarwyddwyr y Cwmni, mae'r cynllun busnes i redeg y fenter hon yn parhau i fod yn heriol ac mae risgiau amlwg ynghlwm a'r cynllun. Fodd bynnag, roedd aelodau yn obeithiol fod diwylliant a meddylfryd newydd ar waith fyddai'n gymorth i'r fenter lwyddo. Byddai cyfraniad ariannol Cyngor Gwynedd yn rhoi cyfle i'r Cwmni i newid ei strwythurau busnes, i leihau costau a chynyddu incwm.

Credid fod swm y buddsoddiad yn rhesymol dros y cyfnod 3 mlynedd a phwysleisiwyd y byddai monitro cyson ac adolygiadau rheolaidd yn fodd o reoli'r risgiau ac na fyddai cymorth yr ail a'r drydedd flwyddyn yn cael ei ryddhau oni bai bod cynnydd digonol ar y cynllun busnes.

*Following the Options Study and Business Plan the Gwynedd Council Board, on the 14 July 2009, resolved to approve the transfer of Harlech Swimming Pool to the Harlech Swimming Trust. In addition, the Board approved that urgent work should be undertaken to repair pipes and the swimming pool filtration system in order to facilitate the transfer; together with approving financial support to the Trust up to April 2011.*

*Since December 2010, when the pool was transferred, the Trust has managed to attract capital investment for the enterprise for upgrading work and to extend the facilities at the pool (café, climbing wall, meeting room). The Trust has also attracted Revenue resources of £300,000 from the Big Lottery to contribute towards the running costs of the enterprise during the 2010-2014 period.*

*Over the last four years, the Trust has faced challenges that were unforeseen when assessing the viability of the transfer. The main challenges were as follows:-*

- Governance Matters*
- Staffing Matters*
- Energy Matters*
- Matters of Use*

*A Public Meeting was held in January 2014 with a view to securing more support for the enterprise in moving on. They managed to attract new members to the committee and new directors to the Trust. The Trust has also secured the support of a company called Empower for the next six months to get to grips with governance and staffing issues.*

*Additionally, since January 2014, the Trust has looked again at its business plan and the financial projections. As a result of this work it appears that the Trust is currently facing a very uncertain time and facing a situation of having to close the pool, unless they can find additional financial support.*

*The Company is requesting that the Council considers giving financial support as follows to the enterprise to meet the deficit in their cash flow:-*

*£60,000 in 2014-15*

*£45,000 in 2015-16*

---

---

£30,000 in 2016-17

*Should the Cabinet decide to support the enterprise, the recommendation was to use the money that has already been accrued through the realisation of senior management savings early-on to fund this one-off need.*

*Gwynedd Council and several partners, including the Welsh Government and the Lottery have invested in the enterprise over the last five years and the Cabinet did not wish for this to have been in vain.*

*Despite the efforts of the Company's volunteers and directors the business plan to run this enterprise continues to be challenging and there are obvious risks associated with the plan. However, members were hopeful that there was a new culture and thinking in force that would help in ensuring the enterprise's success. A financial contribution from Gwynedd Council would give the Company the opportunity to change their business structures, to reduce costs and to increase income.*

*It was believed that the investment amount was reasonable over a three year period and it was emphasised that regular monitoring and regular reviews would be a way of managing the risks and that support for the second and third years would not be released unless there was sufficient progress on the business plan.*

---

Sylwadau neu bwyntiau croes / *Observations or opposing views:-*

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Arweinydd, yn sgil absenoldeb yr Aelod Cabinet Gwynedd Iach, eglurwyd bod heriau yn wynebu sefydliadau ledled y Sir oherwydd yr hinsawdd ariannol dyrys cyfredol a bod y sefyllfa yn anos fyth mewn rhai ardaloedd gwledig.

Eglurwyd bod trafodaethau manwl wedi bod gyda'r cwmni ar er mwyn ystyried y Cynllun Marchnata, yr ymdrechion i gynyddu incwm a'r trefniadau ar gyfer Rheoli Risg. Yn sgil y trafodaethau hynny, yr argymhelliad yma oedd:

- monitro sefyllfa ariannol y cwmni bob mis,
- adolygu'r sefyllfa gyda'r cwmni bob chwarter
- cynnal adolygiad ffurfiol bob chwe mis.

Eglurwyd bod cyfarwyddwyr y cwmni yn llawn ddeall bod yn rhaid marchnata mewn modd rhagweithiol a rhedeg y ganolfan fel busnes er mwyn cynyddu'r defnydd o'r pwll, y wal ddringo a'r caffï ac o ganlyniad i hynny, cynyddu'r incwm. Trafodwyd y ffaith hefyd fod yn rhaid meddwl am yr hir dymor ac ystyried pa gymorth gellid ei roi er mwyn sicrhau cynladwyedd.

Nodwyd y ffaith fod hwn yn benderfyniad hynod o anodd a bod yna ymwybyddiaeth o'r ffaith fod nifer o ffactorau yn yr ardal e.e. Pont Briwet, difrod i'r clawdd llanw yn Llanbedr ddechrau'r flwyddyn a'r ffaith bod yna drafferthion wedi bod gyda'r gwasanaeth rheilffordd, wedi effeithio ar y defnydd o'r pwll nofio..

---

---

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Aelodau Cabinet yn ymwybodol o'r risgiau ond teimlid bod cymaint o fuddsoddi eisoes wedi bod o ran cyllid ac amser swyddogion yn y fenter fel mai amhosibl fyddai peidio ag estyn cymorth cyfrifol gyda'r amod bod yna fonitro ac adolygu'r sefyllfa yn rheolaidd.

Nodwyd y ffaith mai da o beth fyddai i Aelod Cabinet Gwynedd iach anfon llythyr yn nodi pryderon a gobeithion yr Aelodau Cabinet wrth wneud y penderfyniad. Nodwyd yn ogystal yr angen i'r Cyngor ddysgu gwersi o'r profiad o drosglwyddo'r pwll ac awgrymwyd sefydlu tasglu arbenigol a fyddai ar gael i roi cynhaliaeth benodol wrth drosglwyddo adnoddau yn y dyfodol.

*Following the submission of the report by the Leader, in the absence of the Cabinet Member for Healthy Gwynedd, it was explained that organisations across the County were faced with challenges during this currently difficult economic climate and that the situation was even more difficult in some rural areas.*

*It was explained that detailed discussions had taken place with the company in order to consider the Marketing Plan, the efforts to increase income and the arrangements for Managing Risk. In light of these discussions, the recommendation here was to:*

- *monitor the company's financial situation on a monthly basis,*
- *review the situation with the company every quarter,*
- *hold a formal review every six months.*

*It was explained that the company directors fully understood that the marketing had to be proactive and that the centre had to be run as a business in order to increase use of the pool, the climbing wall and the cafe, and ultimately to increase income. It was also discussed that there was a need to have a long-term approach and to consider what assistance could be provided to ensure sustainability.*

*It was noted that this was a very difficult decision and there was awareness of the fact that many factors in the area e.g. Briwet Bridge, damage to the embankment in Llanbedr at the beginning of the year and the fact that there had been difficulties with the railway service, had affected the use made of the swimming pool.*

*In making the decision, the Cabinet Members were aware of the risks but it was felt that there had been so much investment already in terms of funding and officers' time that it would be impossible not to offer responsible assistance subject to the situation being monitored and reviewed regularly.*

*It was noted that it would be a good thing should the Cabinet Member for Healthy Gwynedd send a letter noting the Cabinet Members' concerns and hopes in making the decision. Additionally, the need for the Council to learn lessons from the experience of transferring the pool was noted and it was suggested that a specialist taskforce should be established to provide specific support when transferring resources in future.*

---

---

Barn y swyddogion statudol / The views of the Statutory Officers:-

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Mae'r Aelodau Cabinet yn wynebu penderfyniad anodd, gan fod y Cabinet eisoes wedi cyfarwyddo'r Gwasanaeth Hamdden i ganfod arbedion effeithlonrwydd ychwanegol dros 20% rhwng nawr a 2018. Rwy'n cytuno na ddylai'r cais am adnodd ychwanegu at faich effeithlonrwydd y Gwasanaeth Hamdden. Felly, os yw aelodau yn dewis ychwanegu i faich ariannol y Cyngor gan eu bod yn credu fod y cais hwn yn flaenoriaeth uchel, yna dylid ei ariannu o'r arbedion mae'r Cabinet wedi gwireddu o flaen yr amserlen targedau.

O edrych ar y cais yn unigol, mae'n anodd dadlau nad yw'r fenter newydd yn haeddu cyfle. Mae'n hanfodol sicrhau fod y gefnogaeth yn amodol ar gynydd boddhaol dros y cyfnod tair blynedd a hynny yn rhan o'r cynnydd yn nisgyblaeth ariannol a blaenoriaethu pendant sydd eu hangen i'r dyfodol.

*Cabinet Members face a difficult decision as the Cabinet has already instructed Leisure Services to find additional efficiency savings of over 20% for the period between now and 2018. I agree that the funding of the application should not be added as an extra efficiency burden on the Leisure Service. Therefore, if members choose to add to the Financial burden of the Council because they view this application as a high priority, it should be funded from savings the Cabinet have achieved in advance of the savings target timetable.*

*Looking at this application in isolation it is difficult not to conclude that this renewed initiative deserves a chance. Making the support conditional on satisfactory progress over the three year term is very important as part of the overall increased financial discipline and decisive prioritisation required in the future.*

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Mae'r adroddiad yn egluro'r risgiau ariannol ynghlwm a'r cynnig yma yn ogystal a rhai o'r ystyriaethau perthnasol eraill. Wrth ddod i benderfyniad bydd angen i'r Cabinet bwysu a mesur y risgiau yma yn erbyn y budd cymunedol o gadw'r pwll ar agor. Mae gan y Cabinet dasg anodd yn hyn oherwydd bydd hefyd yn ymwybodol o alwadau eraill ar adnoddau'r Cyngor. Yn unol ag egwyddorion gweinyddiaeth dda, gofynnir i'r Cabinet nodi'n eglur ei resymau dros ei benderfyniad.

*The report explains the financial risk involved with this proposal as well as some of the other relevant considerations. In reaching a decision the Cabinet will need to balance these risks against the community benefit of keeping the pool open. The Cabinet faces a difficult task in this as it will also be aware of other demands on the Council's resources. In accordance with the principles of good administration, the Cabinet is requested to clearly state the reasons for its decision.*

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Mae'n ddealladwy yn yr amgylchiadau fod Aelodau Cabinet perthnasol

---

---

awydd darparu cymorth i geisio cadw Pwll Nofio Harlech ar agor, er gwaetha'r her ariannol ddigynsail sy'n wynebu'r Cyngor ei hun. Mater i'r aelodau yw asesu anghenion a blaenoriaethu adnoddau prin, ond eglurwyd wrth gyflwyno strategaeth ariannol 2014/15 - 2017/18 nad oes modd bellach mynd yn ôl i falansau'r Cyngor. Fodd bynnag, os yw sefyllfa ardal Ardudwy yn eithriad haeddiannol unigryw, ac os yw'r cymorth ariannol am deneuo dros 3 blynedd (£60,000 yn 2014/15, £45,000 yn 2015/16 a £30,000 yn 2016/17) i gwrdd â diffyg dros dro yn llif arian y cwmni, yna fel dywedai rhan 14 o'r adroddiad, cadarnhaf gellid ystyried defnyddio arian sydd eisoes wedi cronni trwy gyflawni arbedion uwchreolaethol yn gynnwys er mwyn diwallu'r angen un-tro yma.

Pe byddai cymorth ariannol yn cael ei ddyfarnu i roi cyfle i gyfarwyddwyr newydd cwmni 'Harlech and Ardudwy Leisure Ltd' ail-fywiogi Pwll Nofio Harlech, yna byddwn yn cydweithio gyda Phennaeth y Gwasanaeth Economi a Chymuned i fonitro'r cynnydd yn incwm y cwmni. Hynny yw, bydd angen asesu llwyddiant eu cynlluniau i uchafu defnydd o'r pwll nofio a'r wal ddringo, ac i ddod a ffrwd incwm newydd i'r fenter o system ynni biomas ar y safle. Awgrymaf dylai unrhyw gymorth ariannol erbyn 2015/16 a 2016/17 fod yn amodol ar dystiolaeth o gynnydd mewn incwm yn 2014/15, i'w fesur yn erbyn gwaelodlin wedi'i broffilio, sydd i'w gytuno yn gynnwys.

*In the current situation it is understandable that Cabinet Members would wish to support the continuation of Harlech Swimming Pool, regardless of the unprecedented financial challenge faced by the Council itself. It is a matter for the members to assess need and prioritise scarce resources, and it has been explained as part of the council's 2014/15 – 2017/18 Financial Strategy that it will not be possible to use the council's reserves. However, if Ardudwy's situation is a unique and justifiable exception, and that the financial support is to taper over three years (£60,000 in 2014/15, £45,000 in 2015/16 and £30,000 in 2016/17) to meet the deficit within the company's cash flow, then I confirm that it would be acceptable to consider funding this one-off need via the senior management efficiency savings which have already been achieved as stated in section 14 above.*

*If financial assistance is granted to allow the new directors of 'Harlech and Ardudwy Leisure Ltd' to re-focus the Harlech Swimming Pool venture, then I will co-operate with the Head of Economy and Community Department to monitor the increase in the company's income. It will be necessary to assess the success of their plans to maximise the climbing wall and swimming pool usage; and to secure the new income stream via the on-site bio-mass scheme. I recommend that any financial assistance for 2015/16 and 2016/17 should be conditional to evidencing the increase in income during 2014/15; to be measured against a profiled baseline and agreed as soon as possible.*

---

Barn yr aelod lleol / Views of the Local Member

Diolchodd yr aelod lleol am y cyfle i ddod i annerch y Cabinet ynghylch Pwll Nofio Harlech. Eglurodd bod yr adnodd yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan drigolion yr ardal a bod Cyfeillion y Pwll yn gwneud gwaith arbennig o dda yn codi arian.

---

---

Dywedodd bod ganddo bob ffydd yn y Cyfarwyddwr newydd am fod ganddynt gefndir busnes a bod ganddynt sawl syniad er mwyn cynyddu'r defnydd o'r pwll, y wal ddringo a'r caffî. Nododd bod yn rhaid monitro'r sefyllfa yn gyson er mwyn bod yn deg â'r Cyfarwyddwyr ac er mwyn tegwch â threthdalwyr Harlech a Thalsarnau. Nododd yn ogystal bod yn rhaid cofio bod ardal Harlech yn Safle Treftadaeth y Byd a bod yn rhaid atgyfnerthu a chryfhau'r ddarpariaeth o fewn ein cymunedau.

*The Local Member expressed his gratitude for the opportunity to address the Cabinet regarding Harlech Swimming Pool. He explained that the resource was used extensively by the area's residents and that the Friends of the Pool were undertaking excellent fundraising work. He said that he had every confidence in the new Directors as they had a business background and they had several ideas of how to increase the use of the pool, the climbing wall and the café. He noted that the situation should be monitored regularly in order to be fair to the Directors and to be fair to the taxpayers of Harlech and Talsarnau. He also noted that it should be borne in mind that Harlech was a World Heritage Site and that the provision needed to be emphasised and strengthened within our communities.*

---